

Elfyn Lewis

Nesa Peth i Ddim



Mae cerdded i mewn i arddangosfa o baentiadau gan Elfyn Lewis o hyd yn dipyn o brofiad a tydi camu i'r casgliad hwn o waith diweddar ym Mhlas Glyn-y-Weddw ddim yn eithriad. Yn artist sy'n gwrthio'i hun a'i grefft ymlaen yn ddygn mae wedi creu cyfres newydd o ddelweddau sy'n rhoi gwefr yn eu cyfanrwydd ond ei brif orchest yw bod y darnau unigol fel gemau sy'n eich tywys a'ch tynnu o un i'r llall. Mae'r llygad yn canfod y rhyfeddod, boed yn linell gynnil neu'n sbloet o liw, sy'n ein galluogi i berchnogi'r ddelwedd a llunio'n canfyddiadau a'n hymatebion ein hunain.

Yn gweithio'n reddfol mae Lewis wedi torri cwys werthfawr yn myd celf Cymru ac erbyn hyn mae wedi hen ennill ei hawl i'w gyfri ymysg yr amlycaf o'n hartistiaid. Yn dilyn ei galon wrth greu'r delweddau haniaethol mae pob haen o baent a phob marc ystumiol yn dod o ddyfnderoedd ei is-ymwybod gyda dylanwad ei ardal enedigol, ei fagwraeth a'i Gymreictod yn dod i'r wyneb wrth i ni ganfod elfennau tirweddol neu sylwi ar y teitlau pwrpasol sydd i bob gwaith. Os edrychwn yn ofalus fe welwn Gymru yn llechu ym mhob delwedd.

O Borthmadog yn wreiddiol, bu Rob Piercy ei athro celf yn Ysgol Eifionydd yn ddylanwad ac ysbrydoliaeth cynnar wrth i Lewis ganfod ei gariad tuag at fynegi ei hun trwy gyfrwng celf. Roedd gwybod fod artistiaid pwysig megis J M W Turner wedi dod i'r ardal i baentio yn wefr a bu i'r artist ifanc feithrin arferiad o fynd allan yn ei gynefin i luniadu – er cymaint roedd ei ffrindiau yn tynnu ei goes ar y pryd! Arwydd cynnar o'i ddycnwch oedd iddo ganlyn ei reddf a mynd i Goleg Menai ym Mangor i ddilyn cwrs Sylfaen mewn Celf. Roedd y diweddar Peter Prendergast yn diwtor arno yma ac wedi cwta dri mis roedd Lewis yn gwybod i sicrwydd mai dilyn gradd paentio oedd ei ddymuniad. Er bod y canfasau oedd yn cofnodi'r mynyddoedd uwch ei gartref ym Methesda yn lliwgar a rhydd roedd Prendergast yn athro eitha llym ac mae Lewis yn falch iddo faethu egwyddor gwaith ynddo sydd wedi'i alluogi i ddod i ben a bywyd artist sydd, fel i unrhyw berson creadigol sy'n gwneud bywoliaeth trwy'i grefft, yn gallu bod yn unig ar adegau.

Preston yn Swydd Gaerhirfryn oedd y cam nesa ar y daith i wneud Gradd Celf Gain cyn symud yn ôl adre i Port ac yna ymgartrefu yng Nghaerdydd ar ddechrau'r nawdegau i geisio sefydlu ei yrfa fel artist a phrofi drosto'i hun y pwysigrwydd yn y dycnwch i ddal ati. Cafodd ei waith ei gynnwys mewn sioeau grŵp yng Nghaerdydd a Chaeredin a gwelwyd ei ddelweddau ar gloriau recordiau bandiau megis Catatonia a Big Leaves a nifer o gloriau llyfrau Parthian. Bu'n rhan o brosiect safle-benodol bwysig gyda'r artist Peter Finnemore yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli yn 2000 ac yn fuan daeth arddangosfeydd unigol yng Nghaerdydd ac Oriel Môn ymysg eraill a llwyddiant mawr wrth ennill y Fedal Aur am Gelf Gain yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala yn 2009 ac Artist Cymreig y Flwyddyn yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd yn 2010. Yr un flwyddyn cafodd ei waith ei ddethol i'w gynnwys yn arddangosfa agoriadol fawreddog Oriel Mostyn ar ei newydd wedd oedd yn dathlu amrywiaeth a chyfoeth celf Cymru. Ers hynny mae Lewis wedi parhau i arddangos yn gyson yng Nghymru a

thu hwnt ac rydym yn hynod falch o gyflwyno casgliad o'i waith newydd yn y gofod oriel braf yma sydd ganddo'm ni ym Mhlas Glyn-y-Weddw.

Mae amseriad yr arddangosfa fodd bynnag yn golygu bod Lewis wedi mynd trwy gyfnodau ingol - o hapusrwydd a thristwch - wrth baratoi'r casgliad. Yn yr un gofod fis Hydref diwethaf buom yn ffodus eithriadol i ddangos rhai o ganfasau lliwgar haniaethol enfawr y ddiweddar Gillian Ayres, un o arwyr Lewis yn y byd celf. Cafodd Lewis wefr o'r arddangosfa ac o gyfarfod a sgwrsio â Sam ei mab, a chael gwybod fod Ayres wedi mwynhau gweld gwaith Lewis mewn llyfryn oedd wedi anfon ati yn anrheg. O weld y canfasau enfawr oedd yn Plas mae Lewis wedi mentro i weithio ar raddfa fwy a gellir teimlo yr un angerdd rhydd ag oedd yng nghanfasau Ayres yn, *Diwedd y Byd, Yn y Diwedd a Croesor Uchaf*.

Mae teitlau'r gweithiau hyn, ynghyd â theitl yr arddangosfa, yn allwedd i elfen arall gafodd effaith ddwys ar Lewis yn ystod y misoedd diwethaf sef colli ei gyfaill y dramodydd, awdur a'r actor, Meic Povey. Fel Lewis roedd Povey wedi ymgartrefu yng Gaerdydd ond roedd trwch ei waith creadigol wedi'i wreiddio yn ddwfn yn ardaloedd Nant Gwynant a Garndolbenmaen lle'i magwyd. Roedd Povey yn dipyn o arwr gan yr artist ifanc oedd yn ceisio gwneud ei farc creadigol a bu cyfarfod a dod yn ffrindiau yn bleser ac yn ddylanwad ar Lewis. Fel Lewis, roedd y dycnwch yna tuag at waith yn hynod o bwysig i Povey fel sgwennwr ac edmygai'r artist yr hunan hyder a'r sicrwydd pendant oedd ganddo wrth iddo gloddio atgofion ei fagwraeth am ddeunydd crai mewn gweithiau pwerus oedd yn oesol berthnasol i ni gyd. Dyma rhywun oedd Lewis yn gallu troi ato am ysbrydoliaeth a rhoi'r ffydd iddo yntau ddilyn ei reddf a pheidio a bod ofn mynegi ei deimladau mewn paent tuag at ei deulu, ei Gymreictod a'i wlad - y pethau sy'n bwysig iddo.

Bydd gennym drafodaeth arbennig am 2pm Sul Gorffennaf yr 8fed lle byddwn yn archwilio dylanwad man geni a magwraeth ar greadigrwydd yng nghwmni'r artist gyda Guto Williams (cyfarwyddwr teledu wnaeth raglen ddogfen am Lewis); Angharad Price (academydd gyda'i chyhoeddiadau yn cynnwys y nofel 'O! Tyn y Gorchudd' a 'Ffarwel i Freiburg, crwydriadau cynnar T H Parry Williams'); Carwyn Jones (artist ddaeth i amlygrwydd fel 'Y Dyn Gwyllt' ar S4C); Michael Sparks (Sgotyn sydd wedi syrthio mewn cariad â Chymru ac ymgartrefu yma) a Branwen Cennard (awdur a chynhyrchydd fu'n gweithio'n agos â Meic Povey ar sawl cynhyrchiad teledu gan gynnwys 'Byw Celwydd'). Mae mynediad am ddim ond rhaid ffonio neu ebostio'r oriel ymlaen llaw i sicrhau lle - 01758 740763 / enquiry@oriel.org.uk

Mae Cynllun Casglu – cynllun prynu di-log Cyngor Celfyddydau Cymru - ar gael ar gyfer unrhyw bryniant o waith Elfyn Lewis. Holwch am fanylion.